**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

22 Chwefror 2016

Annwyl Weinidog

**Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd**

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 27 Ionawr 2016 i ateb cwestiynau ar strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru ar ei newydd wedd.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

**1. Cynllun cyflenwi ar gyfer y strategaeth**

Rydym yn siomedig gan eich penderfyniad i beidio â llunio cynllun cyflenwi naill ai fel rhan o'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft neu ochr yn ochr â'r strategaeth ddiwygiedig derfynol i'w chyhoeddi fis Mawrth 2016.

Nodwn eich tystiolaeth fod y dull hwn yn seiliedig ar argymhelliad eich Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol. Fodd bynnag, credwn yn gryf y dylai'r strategaeth ddrafft fod wedi cynnwys cynllun cyflenwi manwl a oedd yn darparu targedau, canlyniadau, amserlenni a chostau clir a mesuradwy.

Yn ystod y cyfarfod, nid oeddech yn gallu rhoi amseroedd pendant i ni ar gyfer cyhoeddi'r cynllun cyflenwi. A ydych chi mewn sefyllfa i wneud hynny nawr?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

## 2. Mynediad i gredyd fforddiadwy a gwasanaethau ariannol

Yn ystod y cyfarfod, rhoesoch ymrwymiad i adolygu aelodaeth y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol gyda'r bwriad o sicrhau cynrychiolaeth o'r sector bancio. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi manylion ynghylch yr aelodaeth newydd, pan fyddant ar gael.

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad parhaus i godi proffil gwaith yr Undebau Credyd. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am allu'r sector i gyflawni'r ymrwymiadau sydd yn y strategaeth pan fydd cyllid Llywodraeth Cymru yn dod i ben ym mis Mawrth 2017. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu undebau credyd i feithrin gallu ar gyfer y trawsnewid y tu hwnt i 2017?

## 3. Mynediad i wybodaeth ariannol

Gwnaethom dynnu sylw at y pwysigrwydd o sicrhau bod gwybodaeth ariannol ar gael i bawb, nid dim ond y rhai â mynediad i'r rhyngrwyd.

Gwnaethoch gydnabod y pwynt hwn a chytuno i fwrw ymlaen â hynny fel rhan o'r cynllun cyflenwi.

## 4. Strategaeth Gallu Ariannol y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r berthynas arfaethedig rhwng Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddiwygiedig Llywodraeth Cymru a'r Strategaeth Gallu Ariannol newydd ar gyfer Cymru a lansiwyd yn ddiweddar gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Rydym yn pryderu bod yna botensial am ddryswch rhwng cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol, a gofynnwn i chi fynd i'r afael â hyn fel rhan o'r cynllun cyflenwi ar gyfer Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.

## 5. Addysg ariannol

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud wrthym y bydd llythyr cylch gwaith 2016-17 at Estyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygiad thematig o ansawdd y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Rydym wedi ysgrifennu hefyd at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr adolygiad thematig hwn, yn arbennig, amserlenni ar gyfer y gwaith, a pha flaenoriaeth fydd yn cael ei rhoi iddo ochr yn ochr â'r meysydd eraill y bydd Estyn yn gyfrifol am edrych arnynt.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
Cadeirydd